UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Gwybodaeth Undebol

# Gweithredu diwydiannol gan undebau eraill yn eich gweithle

**UCAC |** yr undeb sy’n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Beth sy’n digwydd pan fo undebau eraill yn streicio?

Mae’r daflen hon yn cynnig arweiniad i aelodau UCAC yn y sefyllfa honno pan fydd aelodau o undebau eraill yn gweithredu’n ddiwydiannol.

Mae’n dra thebygol y bydd nifer o aelodau UCAC yn wynebu sefyllfa yn yr wythnosau nesaf lle bydd rhai o’u cydweithwyr yn streicio. Yn y ddogfen hon, rydym yn ceisio ateb rhai o’r cwestiynau a allai godi mewn sefyllfa o’r fath.

### 1. A fydd yr ysgol ar agor ar ddyddiau pan fydd rhai undebau yn streicio?

Mae’r ateb i’r cwestiwn hwn yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Bydd yn rhaid i’r Pennaeth gynnal asesiad risg cyn penderfynu a yw’n ddiogel ac yn briodol i’r ysgol barhau ar agor ai peidio. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yr ysgol ar agor yn rhannol e.e. rhai dosbarthiadau yn parhau yn yr ysgol, tra bo dosbarthiadau eraill gartref. Mae hawl gennych i weld yr asesiad risg y bydd y Pennaeth wedi ei gynnal cyn dod i benderfyniad.

Os yw eich pennaeth ar streic, efallai y bydd gofyn i ddirprwy weithredu yn ei le. Fodd bynnag, disgwylir y bydd cyfarwyddiadau pendant iawn yn cael eu trosglwyddo i’r dirprwy.

Os yw eich pennaeth a’ch dirprwy ar streic, nid oes unrhyw un mewn sefyllfa i arwain yr ysgol yn gyfreithiol. Os ydyw’r ysgol am agor, byddai angen rhannu asesiad risg, cyfarwyddiadau clir o ran disgwyliadau ac arweinyddiaeth a dealltwriaeth clir mai rheolwyr yr ysgol fydd yn gyfrifol pe bae unrhyw fater brys yn codi.

### 2. Os bydd yr ysgol ar gau yn rhannol, a fydd disgwyl i mi gyflawni tasgau ar ran aelodau sydd ar streic?

Na. Ni ddylech ar unrhyw gyfrif gyflawni tasgau ar ran aelodau sydd ar streic. Ni ddylech gytuno i addysgu na goruchwylio dosbarthiadau cydweithwyr sy’n streicio (naill ai wyneb yn wyneb neu yn rhithiol). Ni ddylech chwaith ddarparu gwaith i ddisgyblion cydweithwyr sy’n streicio. Nid yw aelod o UCAC i weithredu mewn unrhyw fodd a all gael ei ddehongli’n weithred sy’n tanseilio gweithredu diwydiannol undeb arall. Ni ddylai athrawon ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau sy’n *ychwanegol* i’r gwaith arferol - yn enwedig os yw’r dyletswyddau hyn yn rhan o waith arferol person sy’n gweithredu’n ddiwydiannol. Mae hyn yn cynnwys gwarchod gwersi unrhyw unigolyn sydd ar streic.

Ni ddylai eich tîm arweiniol ofyn i chi wneud unrhyw dasgau ar ran



01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru 

cydweithwyr sy’n streicio.

### 3. Os na fydd disgyblion yn yr ysgol, a fydd disgwyl i athrawon nad ydynt yn streicio fod yn bresennol yn yr ysgol?

Mae hawl gan bennaeth i ofyn i athrawon nad ydynt yn streicio i fod yn bresennol yn yr ysgol a dylech ddilyn cyfarwyddyd eich pennaeth yn hyn o beth. Bydd disgwyl i chi nodi eich bod yn bresennol yn yr ysgol. Mae hyn yn bwysig, er mwyn gwybod yn union pwy sydd ar safle’r ysgol at ddibenion diogelwch (e.e. pe bai argyfwng megis tân). Fodd bynnag, y disgwyl yw y bydd nifer o benaethiaid yn rhoi cyfarwyddyd i’w staff weithio o gartref ar ddiwrnod y streic, ond bydd gofyn i chi gadarnhau mewn rhyw ffordd eich bod yn gweithio gartref.

### 4. A all Pennaeth ofyn i mi addysgu fy nosbarthiadau arferol yn rhithiol ar ddiwrnod streic?

Os yw’n golygu gwaith ychwanegol, mae UCAC o’r farn y gall hyn fod yn gofyn i athrawon gyflawni dyletswyddau sydd y tu hwnt i’w dyletswyddau arferol.

### 5. A fyddaf i yn colli cyflog ar ddiwrnod pan fo undebau eraill yn streicio?

Na. Os byddwch chi ar gael i weithio ar y diwrnod hwnnw ac yn dilyn cyfarwyddydd yr ysgol o ran bod yn bresennol yn yr ysgol neu aros gartref, yna dylech dderbyn cyflog fel arfer.

### 6. Beth ddylwn i ei wneud os bydd yr undeb sy’n streicio wedi ffurfio llinell biced y tu allan i’m lle gwaith?

Os oes picedu y tu allan i’r adeilad, disgwylir i athrawon groesi’r llinell. Os yw athro yn penderfynu peidio â chroesi’r llinell biced, golyga hyn y bydd yn torri ei ch/gytundeb; yn ogystal â cholli cyflog, fe all arwain at ddisgyblu.

Os ydych yn teimlo eich bod mewn perygl o gael eich anafu wrth groesi llinell biced, yna dylech gysylltu â phennaeth eich ysgol neu aelod o’r uwch dîm arwain. Ni ddylai aelodau unrhyw undeb ymddwyn yn fygythiol tuag at unigolion sy’n croesi’r llinell biced er mwyn mynd i’w gwaith.

### 7. Beth os byddaf yn sâl ar ddiwrnod pan fo undeb arall yn streicio ac o’r herwydd yn methu bod yn bresennol yn y gwaith?

Dylech ddilyn y canllawiau arferol ar gyfer hysbysu’r ysgol eich bod yn sâl. Os oes gweithiwr yn aros i ffwrdd o’r gwaith oherwydd salwch ar ddiwrnod o weithredu diwydiannol gan undeb arall, mae hawl gan y cyflogwr i ofyn am

bapur meddyg swyddogol am y diwrnod hwnnw.

### 8. A allaf fi streicio er mwyn dangos cefnogaeth i undeb arall?

Mae'r gyfraith yn gwahardd gweithredu'n ddiwydiannol heb ddilyn trefn benodol sy'n cynnwys cynnal balot o'r aelodau perthnasol.

O ganlyniad, os yw'r sefydliad ar agor, disgwylir i athrawon nad ydynt yn aelod o undeb sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, weithio fel arfer a chyflawni eu dyletswyddau arferol. Os nad ydych yn aelod cymwys o'r undeb sy'n streicio, rydych yn gweithredu'n anghyfreithlon os byddwch yn streicio a byddech yn wynebu proses ddisgyblu o'r herwydd.

### 9. Beth os oes noson rieni neu ddigwyddiad arall ar galendr yr ysgol?

Os nad oes digon o aelodau o staff ar gael i fynychu, byddwn yn disgwyl i arweinwyr hysbysu'r rhieni na fydd digwyddiad yn cael ei gynnal ar y diwrnod dan sylw.  Mewn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr undebau/staff, gallent ymdrechu i aildrefnu, ond os oes digwyddiad arall wedi ei drefnu gan staff ar y noson honno, dylai arweinwyr dderbyn a bod yn sensitif i hynny.

### 10. Beth yw'r sefyllfa os yw arweinydd yn gofyn i staff asiantaethau/cyflenwol allanol oruchwylio dosbarthiadau athrawon sy'n streicio?

Barn glir UCAC yw na ddylid gwneud hyn.  Mae'n anghyfreithlon i gyflogwyr yng Nghymru gyflogi staff asiantaeth/cyflenwol yn lle athrawon/staff sy'n streicio.  Hefyd mae'n tanseilio sefyllfa un o'ch cydweithwyr, ac yn siŵr o greu awyrgylch annymunol yn yr Ysgol.  Mae tebygrwydd cryf y bydd yn ychwanegu at lwyth gwaith unigolion nad ydynt ar streic, a gan ei fod yn gofyn iddynt weithredu y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol, mae pob hawl ganddynt i wrthod cynorthwyo staff asiantaeth/cyflenwol allanol mewn unrhyw ffordd.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: 27 Ionawr 2023**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru